



Swyddog Prosiect i weithio ar y Cynllun am ddeunaw mis. Ffrwyth gwaith y deunaw mis hwnnw yw'r gyfrol hon sydd yn deillio o'r arolwg a wnaeth Beti Jones o'r daliadau o bapurau newydd sydd ar hyn o bryd yn cael eu cadw mewn llyfrgelloedd, archifdai, amgueddfeydd a swyddfeydd cyhoeddwyr papurau newydd, yn ogystal â chasgliadau preifat, ar hyd a lled Cymru a thu hwnt i Glawdd Offa.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am dros 1,000 o deitlau a gyhoeddwyd yng Nghymru o'r dechrau cyntaf yn 1804. Y mae hefyd yn cynnwys manylion am bapurau newydd Cymraeg a Chymreig a gyhoeddwyd mewn gwledydd eraill. Dyma grynodeb o gynnwys yr Adroddiad:

Rhagymadrodd
Rhestr A-Z o deitlau papurau newydd a gyhoeddwyd yng Nghymru. Ceir gwybodaeth am ddaliadau sefydliadau yn yr adran hon hefyd.
Mynegai yn ôl ardaloedd cyhoeddi a phrif ardaloedd dosbarthu.
Rhestr o bapurau newydd y Gororau a thu hwnt.
Rhest o bapurau newydd Cymreig a gyheddwyd mewn gwledydd tramor.
Mynegai i bapurau newydd yn ôl dyddiad eu cyhoeddi.
Mynegai i bapurau bro Cymraeg.
Map y papurau bro Cymraeg.
Mynegai i bapurau newydd sydd heb oroesi.
Rhestr o bapurau newydd rhad ac am ddim.
Llyfryddiaeth.

Cyhoeddir rhan o Ragymadrodd diddorol y gyfrol mewn rhan arall o'r rhifyn hwn o *Y Casglwr*.

*(Parhad o dudalen 6)*

hoffi adeiladu casgliad o lyfrau mewn meysydd (academaidd gan mwyaf) sydd o ddiddordeb imi (naill ai o raid neu o ddewis), neu fynnu copi o lyfr o ddiddordeb arbennig, oherwydd ei gynnwys neu'i wedd: a rhaid cyfaddef fod elfen afresymol yn hyn oll. Bûm yn casglu llyfrau a argraffwyd yn Aberdâr ond yr wyf yn ceisio osgoi casglu er ei fwyn ei hun, er bod ceisio cael set gyflawn o ambell gyfres yn dal yn wendid. Hoffwn feddwl fy mod yn casglu llyfrau er mwyn eu darllen neu'u defnyddio — o leiaf rywbryd.

*H.C.J.: Sut hoffech chi weld Cymdeithas Bob Owen yn datblygu?*

*B.F.R.:* Rhyw dybio yr wyf fod aelodau Cymdeithas Bob Owen yn ddigon tebyg i mi: yn hoffi llyfrau er eu mwyn eu hunain, yn ogystal ag am yr hyn a ddywedir ynddynt, yn casglu, neu'n hel, llyfrau mewn meysydd sydd o ddiddordeb, ac yn ymddiddori digon i chwilio i mewn rywfaint i'w hanes a'u hynodion gan rannu'r wybodaeth honno fel ysgrifenwyr a darllenwyr. Erbyn hyn mae'r Gymdeithas wedi ehangu i gynnwys nid llyfrau'n unig, ond bron popeth casgladwy — printiedig, darluniadol, seiniol, etc — ond yr un math o bobl ydym oll. Mae'r *Casglwr* yn hynod o bwysig a hoffwn weld mwy a mwy o aelodau'n barod i anfon pytiau neu erthyglau er mwyn inni i gyd gael rhannu'n gwybodaeth a'n diddordeb. Hoffwn ein gweld yn tyfu'n fwy o gymdeithas trwy gyfarfod â'n gilydd, i ddysgu a rhannu profiad, nid yn unig ar dudalennau'r *Casglwr* ond mewn cydgyfarfyddiad. Dyna ddiben ein darlith eisteddfodol, ac ym mis Mai eleni, ein hysgol undydd gyntaf. Gall honno ein creu'n gymdeithas fwy clòs trwy ein cynorthwyo i rannu. Hoffwn weld y gymdeithas yn helpu'r aelodau yn eu diddordeb trwy roi gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd, a byddwn yn trafod hynny yn y Pwyllgor Gwaith.

## YN EISIAU

***Llyfrau am/gan Dr Richard Price, 1723-91, Llangeinor.***
Y Parchg A. M. Roberts, Glangors, Stryd King's Head, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DR. Ffôn (0758) 701510.

* * *

***Memoirs of the late Christmas Evans of Wales,*** *David Rhys Stephen. London, Aylott & Jones, 1847.*
*Heini Davies, d/o Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Dyfed SY23 3BU. Ffôn: (0970) 623816.*

***Cymru a'r Hen Ffydd,*** *Emyr Gwynne Jones, Caerdydd, 1951.*
*Huw Teyrnon Williams, Wellfield House, Ffordd Caerdydd, Pwllheli, Gwynedd.*

## AR WERTH

***Clych Atgof . . .*** O. M. Edwards. Gwasg Gregynog, 1933.
Cysyllter â Golygydd *Y Casglwr*.

* * *

***Cambrian Bibliography . . .,*** William Rowlands (Gwilym Lleyn) . . . Llanidloes, 1869.
***The University College of Wales Magazine,*** cyfrol 3, 1880-81.
Cysyllter â Golygydd *Y Casglwr*.

* * *

***The Cambrian Plutarch . . .,*** John H. Parry, London, 1834.
Mrs J. Commin, Casa Velha, Fonte da Murta, 8150 S. Bras de Alportel, Algarve, Portugal.

* * *

***The Black Book of Carmarthen,*** edited by J. Gwenogvryn Evans, Pwllheli, 1906. Cloriau caled. Rhif 466. £25.00.
***The White Book Mabinogion . . .,*** edited by J. Gwenogvryn Evans, Pwllheli, 1907. Cloriau papur gydag ambell rwyg. Rhif 373. £20.00.
***Memorials of Old North Wales,*** E. Alfred Jones, London, 1913. £15.00.
***The Church plate of the Diocese of Bangor;*** E. Alfred Jones. London, 1906. £40.00.
Cludiant yn ychwanegol.
D. G. Lloyd Hughes, Gwên-y-wawr, New Inn, Pencader, Dyfed SA39 9AZ. Ffôn: (0559) 384839.

SIOP LYFRAU
DYFFRYN DYFI

*Stoc helaeth o lyfrau amrywiol ar werth bob amser, gan gynnwys detholiad o deitlau Cymraeg a Chymreig*

Llun-Sadwrn 10a.m. – 6p.m.
Ar gau dydd Iau

6 Heol y Doll, Machynlleth
Powys SY 20 8BQ
Ffôn: (0654) 703849